

CANLLAW



Canllaw ar gyfer  
**Gweithio gyda Phetrol**

Rhifyn 1  
Chwefror 2018

## 1. CYFLWYNIAD

Mae petrol yn hylif fflamadwy iawn sy'n rhyddhau anwedd sy'n fwy dwys nag aer. Mae'n hawdd cynnau'r anwedd yma, hyd yn oed ar dymheredd isel, felly mae risg o dân neu ffrwydrad. Mae gan hyd yn oed arllwysiadau bach y potensial i droi'n ddigwyddiad mawr.

Mae petrol yn niweidiol os yw'n cael ei lyncu neu'n dod i gysylltiad â'r croen, ac mae mygdarthau petrol yn llidiog os ydyn nhw'n cael eu mewnanadlu neu'n dod i gysylltiad â'r llygaid.

Gall arllwysiadau/gollyngiadau petrol wneud ffyrdd a llwybrau cerdded yn llithrig.

Mae petrol hefyd yn peri risg i'r amgylchedd. Gall arllwysiadau drylifo i mewn i ddŵr daear gan achosi risgiau iechyd i ddŵr yfed, ac i fywyd dyfrol a bywyd gwylt.

Felly mae'n hanfodol bod petrol yn cael ei ddefnyddio, ei drin a'i storio'n ddiogel.

**O dan Reoliadau Sylweddau Peryglus ac Atmosfferau Ffrwydrol 2002 (DSEAR), rhaid cynnal asesiad risg ar gyfer gweithio gyda phetrol er mwyn nodi'r mesurau sydd eu hangen i ddileu neu leihau a rheoli risgiau, gan gynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio, cludo a storio petrol, a llenwi cynwysyddion cludadwy mewn gorsafoedd.**

(Lle bo hyn yn ymarferol, yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio yw dileu'r defnydd o betrol yn llwyr, ac os nad yw'n ymarferol, **dylai cyn lleied o betrol ag sy'n bosibl gael ei ddefnyddio, ei drin a'i storio**).

Yn bennaf, mae'r canllaw yma wedi cael ei baratoi ar gyfer gweithleoedd lle mae swm cymharol fach o betrol yn cael ei storio (hynny yw, 30 litr ar y mwyaf ar unrhyw adeg) ar gyfer offer sy'n llosgi petrol, megis peiriannau torri gwair, gan ofalwyr, garddwyr, tasgryn ac ati.

Lle'r bwriad yw storio mwy na 30 litr, rhaid gofyn am arweiniad arbenigol gan ymgynghorwyr diogelwch tân penodedig y Cyngor.

## 2. STORIO PETROL - CYNWYSYDDION CLUDADWY



I storio petrol mewn cynwysyddion cludadwy, rhaid dilyn yr egwyddorion canlynol mewn perthynas â'r cynwysyddion eu hunain (gan gyfeirio at ganllaw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, sef *Cynwysyddion Cludadwy i Storio Petrol*):

- dylai cynwysyddion fod â capasiti nominal o:
  - 10 litr ar y mwyaf os cynhwysydd plastig yw e;
  - 20 litr ar y mwyaf os cynhwysydd metel yw e;(y capasiti nominal yw'r cyfaint uchaf y gall y cynhwysydd ei ddal gan adael lle i'r petrol chwyddo);
- dylai cynwysyddion fod â chyfaint sydd rhwng 10% a 15% yn fwy na'r capasiti nominal;  
(cyfanswm y capasiti yw'r uchafswm cyfaint y byddai'r cynhwysydd yn ei ddal os yw'n cael ei lenwi i'r ymyl);
- rhaid i gynwysyddion fod wedi'u cymeradwyo gan y Cenhedloedd Unedig (wedi'u labelu fel Cenhedloedd Unedig 1203), hynny yw, rhaid eu bod nhw o fetel neu blastig sy'n ddiogel ac yn addas at y diben, na fydd yn dirywio'n sylweddol o fod mewn cysylltiad â phetrol neu ymbelydredd uwchfioled sy'n digwydd yn naturiol;
- dylai cynwysyddion, p'un a ydyn nhw'n blastig neu'n fetel, gael eu cynllunio a'u creu fel:
  - eu bod nhw'n ddigon cryf ac nad ydyn nhw'n debygol o dorri wrth eu defnyddio yn y modd arferol;
  - bod dim modd i hylif neu anwedd ddianc;
  - bod modd arllwys petrol yn ddiogel ohonyn nhw;
  - nad ydyn nhw'n ansad wrth eu gosod ar wyneb fflat;
- rhaid i gynwysyddion fod wedi'u marcio / labelu'n glir gyda'r canlynol:
  - y geiriau 'PETROL' a 'FFLAMADWY IAWN' / 'HIGHLY FLAMMABLE';
  - yr arwydd rhybudd perygl priodol ar gyfer cynhwysydd unigol sy'n dal hylif fflamadwy, hynny yw;



- capasiti nominal y cynhwysydd mewn litrau;
- enw'r gwneuthurwr a'r dyddiad a'r mis pan gafodd ei wneud;
- dylai cynwysyddion fod â chaeadau sy'n ffitio'n dda ac sydd wedi'u gwneud o ddeunydd diogel gan atal hylif neu anwedd rhag dianc. Dylai'r caead ddarparu sêl effeithiol bob amser a ddylai fe ddim dangos unrhyw arwyddion gweladwy o ollwng hyd yn oed pan fydd y cynhwysydd ar ei ochr neu yn cael ei fwrw drosodd ar ddamwain;

- dylai'r agoriadau ganiatáu llenwi o bwmp petrol yn ddiogel heb ddefnyddio twmffat;
- lle mae pig arllwys ar gynwysyddion, dylai hi fod yn bosibl atodi'r big i'r agoriad yn gadarn fel bydd modd eu gwacáu heb ollyngiadau (mae addaswyr pig gwrth-ollwng ar gael a all helpu rhwystro fflamau a ffrwydradau mewnol rhag fflachio'n ôl wrth arllwys petrol o gynwysyddion petrol plastig - mae modd defnyddio'r addaswyr yma yn lle'r big sydd wedi'i darparu neu eu cynnwys yn nyluniad y cynhwysydd petrol).

Dylai cynwysyddion gael eu gwirio'n rheolaidd i sicrhau eu bod nhw mewn cyflwr da, ac nad ydyn nhw'n debygol o ollwng (marciau/labeli darllenadwy, capiau sy'n ffitio'n dda ac yn aros ar gau, rhydd rhag rhwd, tolciau, holltau, tyllau ac ati).

Dylai cynwysyddion sydd wedi'u difrodi neu sy'n ddiangen gael eu storio mewn storfa petrol hyd nes bydd modd eu gwaredu drwy contractiwr arbenigol.

### 3. LLENWI CYNWYSYDDION MEWN GORSAF BETROL



Lle bo hynny'n berthnasol, dylai'r asesiad risg ar gyfer gweithio gyda phetrol gynnwys y weithred o lenwi cynwysyddion cludadwy yn yr orsaf betrol pan fo angen gwneud hynny.

Rhaid dilyn y cyfyngiadau capasiti sydd wedi'u nodi yn Adran 2 - ond sylwch hefyd ar y cyfyngiad o ran cludo petrol mewn cerbyd yn Adran 4.

Mae'n bosibl bydd gan orsafoedd petrol unigol eu cyfyngiadau eu hunain o ran math, maint a nifer y cynwysyddion y byddan nhw'n caniatáu i chi eu llenwi, a rhaid i chi gydymffurfio â hyn.

Rhaid gosod cynwysyddion mewn lle sefydlog ar y ddaear wrth eu llenwi.

Rhaid i weithwyr lenwi cynwysyddion yn araf a sicrhau eu bod yn cael eu llenwi i'r capasiti nominal yn unig ac nid i'r capasiti cyfan.

Rhaid i weithwyr ddilyn cyfarwyddiadau / gweithdrefnau diogelwch sydd wedi'u darparu gan wneuthurwyr y cynhwysydd a/neu'r orsaf betrol wrth lenwi cynwysyddion.

#### 4. CLUDO PETROL

Lle bo hynny'n berthnasol, dylai'r asesiad risg ar gyfer gweithio gyda phetrol gynnwys y weithred o gludo petrol, er enghraifft, o'r orsaf betrol i'r gweithle pan fo angen gwneud hynny.

Mae *Rheoliadau Cludo Nwyddau Peryglus a Defnyddio Offer Gwasgedd Cludadwy 2009* yn ei gwneud hi'n ofynnol i betrol gael ei gludo mewn cynwysyddion sydd wedi'u cymeradwyo gan y Cenhedloedd Unedig - edrychwch ar Adran 2.

Caiff uchafswm o 20 litr eu cludo mewn cynwysyddion cymeradwy mewn unrhyw gerbyd y Cyngor ar unrhyw adeg.

Os yw cynwysyddion yn cael eu storio yng nghist y cerbyd, dylai'r cerbyd gael ei gloi bob amser os na chaiff ei oruchwyllo, er mwyn atal lladrad. Os yw cynwysyddion yn cael eu storio mewn cerbyd agored, er enghraifft, trÿc heb do, ddylai'r cerbyd ddim cael ei adael heb oruchwyliaeth.

Rhaid storio cynhwysyddion ar eu sefyll mewn cerbydau er diogelwch ac er mwyn osgoi'r tebygolrwydd o'u torri ac o'u cynnwys yn gollwng.

Rhaid cario digon o ddeunydd addas, megis tywod neu ronynnau amsugol, i amsugno petrol sydd wedi'i ollwng.

Rhaid bod diffoddwr tân yn y cerbyd hefyd - sydd ag un ai 2 gilogram o bowdwr sych neu ewyn. Rhaid i hwnnw gael ei archwilio gan y gyrrwr o leiaf unwaith yr wythnos i sicrhau nad yw e wedi'i ddifrodi neu nad yw person arall wedi ymyrryd ag ef. Rhaid i ddiffoddwr tân newydd gael ei ddefnyddio pan fydd dyddiad y llall wedi dod i ben. Ar gyfer cerbydau sy'n eiddo i'r Cyngor, Gwasanaethau Cerbydau'r Cyngor sy'n trefnu bod diffoddwyr tân newydd ar gael. Dylai'r rheolwr gweithle perthnasol gysylltu â Gwasanaethau Cerbydau'r Cyngor i sicrhau bod hyn yn digwydd mewn modd amserol. Ar gyfer cerbydau sydd ddim yn perthyn i'r Cyngor, y rheolwr gweithle neu'r Pennaeth Ysgol perthnasol (ac ati) sy'n gyfrifol am drefnu bod diffoddwyr tân newydd ar gael.

Rhaid darparu hyfforddiant cyffredinol ar gyfer gyrrwr y cerbyd mewn perthynas â defnyddio petrol mewn modd diogel (edrychwch ar Adran 6), yn ogystal â hyfforddiant gloywi bob hyn a hyn, sy'n ymwneud â:

- sut mae defnyddio diffoddwr tân;
- y gofynion ar gyfer cludo petrol yn ddiogel, gan gynnwys rhagofalon diogelwch tân;
- beth i'w wneud mewn achos o dân yn y cerbyd (neu mewn argyfwng arall), neu os oes gwrthdrawiad;
- beth i'w wneud os arllwysiad neu ollyngiad.

Rhaid cadw cofnodion o'r hyfforddiant i yrwyr.

## 5. STORIO PETROL

Dylai'r asesiad risg ar gyfer gweithio gyda phetrol gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer storio petrol.

Rhaid i gynwysyddion unigol sy'n cael eu defnyddio i storio petrol fod yn gynwysyddion cludadwy ar gyfer storio petrol wedi'u cymeradwyo gan y Cenhedloedd Unedig - edrychwch ar Adran 2.

Does dim hawl storio mwy na 30 litr o betrol i gyd mewn unrhyw weithle, p'un ai yn yr adeilad neu'r tu allan iddo yw hynny. Mae hyn yn cynnwys unrhyw betrol sydd mewn tanciau offer hefyd.

### Storio Mewn Gweithleoedd

Ddylai cynwysyddion cludadwy ar gyfer storio petrol ddim cael eu cadw mewn gweithleoedd oni bai nad oes dewis arall.

Lle mae angen storio cynwysyddion cludadwy ar gyfer storio petrol mewn gweithle, dylech chi ddilyn y rheolau yma:

- Dylai'r cynwysyddion gael eu storio **un ai** mewn cabinet sy'n cydymffurfio â'r meini prawf sydd wedi'u nodi yn ACOP L 138 yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: Sylweddau Peryglus ac Atmosfferau Ffrwydrol, hynny yw:
  - rhaid bod y deunyddiau sy'n cael eu defnyddio i ffurfio'r ochrau, y pen, y drws/drysau a'r caead yn gallu darparu'r gwrthiant tân gofynnol (30 munud cyn iddo golli ei briodweddau strwythurol) a'r adwaith gofynnol i dân (hynny yw, risg leiaf);
  - dylai'r cymalau rhwng yr ochr, y pen a'r gwaelod fod yn rhydd rhag agoriadau a bylchau;
  - dylai'r caead/drysau ffitio'n agos yn erbyn ffrâm y cabinet fel nad oes gorgyffwrdd nominal rhwng y ffrâm a'r caead a'r drysau pan fyddan nhw ar gau;
  - dylai'r cynalbyst a'r ffasninau fod o ddefnydd sydd â phwynt toddi sydd uwch na 750°C;
  - maen nhw wedi'u cynllunio i ddal arllwysiadau;
- **neu** mae'r cynwysyddion yn cael eu storio mewn cabinet sy'n cydymffurfio â *BS EN 14470 – 1: Cabinetau Storio Diogel ar gyfer Hylifau Fflamadwy*, gradd 30 munud;
- rhaid i gabinetau gael eu lleoli mewn man penodol sydd wedi'i awyru'n dda, i ffwrdd o'r manau gwaith, a lle na fyddan nhw'n amharu ar y modd dianc (er enghraifft, ddim ar brif lwybrau, mewn prif goridoriau neu yn ymyl allanfeydd);

- rhaid bod cabinetau wedi'u labelu'n glir fel ei bod hi'n amlwg mai ar gyfer storio hylif fflamadwy y maen nhw, hynny yw:



- does dim hawl storio mwy na 30 litr o betrol i gyd mewn unrhyw weithle unigol;
- **ddylai petrol ddim cael ei storio y tu mewn i unrhyw weithle sy'n cynnwys llety preswyl.**

### Storio y tu allan i Weithleoedd

Caiff cynwysyddion cludadwy ar gyfer storio petrol eu cadw y tu allan i weithle mewn, er enghraifft:

- storfa sydd ynghlwm wrth weithle sy'n cynnwys llety preswyl - dyma **sefyllfa y dylid ei osgoi os yw hynny'n bosibl o gwbl**, ond os hyn yw'r unig ateb posibl:
  - dylai fod adraniad rhwng y storfa a'r gweithle sydd yn gallu gwrthsefyll tân am 60 munud;
  - ddylai fod dim unrhyw ddrysau nac agoriadau eraill yn yr adeiladwaith sy'n gwahanu'r storfa a'r gweithle;
- storfa sydd ynghlwm wrth unrhyw weithle arall, ac os felly:
  - dylai fod adraniad rhwng y storfa a'r gweithle sydd yn gallu gwrthsefyll tân am 30 munud;
  - dylai unrhyw ddrws yn yr adeilad sy'n gwahanu'r storfa a'r gweithle allu gwrthsefyll tân am 30 munud a dylai fod seliau mwg a dyfais hunan-gau arno, gyda lefel sil sydd 150mm uwchlaw lefel llawr y storfa;
- storfa allanol ar wahân;
- amrywiaeth o gabinetau, biniau neu unedau dur, sydd yn debyg i'r rhain:



- pan fydd petrol yn cael ei storio tu allan, boed hynny mewn storfa, cabinet, bin neu uned, does dim hawl storio mwy na 30 litr o betrol i gyd mewn unrhyw weithle unigol.

## Egwyddorion Storio Cyffredinol

Ar gyfer storio petrol, mae'r egwyddorion cyffredinol yma yn berthnasol:

- rhaid peidio â storio sylweddau peryglus eraill a all gynyddu'r risg o dân (megis sylweddau fflamadwy eraill) neu a all beryglu soletwydd y cynwysyddion cludadwy (megis ocsidyddion a sylweddau crydol) gyda chynwysyddion cludadwy mewn cabinetau / biniau / unedau / storfeydd ac yn y blaen;
- dylai cabinetau / biniau / unedau / storfeydd ac yn y blaen gael eu lleoli 2 fetr i ffwrdd o adeiladau sydd wedi'u meddiannu a ffiniau'r safle;
- dylai cabinetau / biniau / unedau / storfeydd allanol ac yn y blaen gael eu lleoli i ffwrdd o byllau, ffosydd, draeniau ac yn y blaen (gan fod anwedd petrol yn fwy dwys nag aer ac oni bai ei fod yn cael ei wasgaru, bydd yn tueddu casglu mewn mannau is, ac os oes gollyngiad ac mae taniad yn digwydd mewn man o'r fath, mae'r fflam yn debygol o deithio neu 'fflachio' yn ôl i ffynhonnell yr anwedd, hynny yw, y cynhwysydd petrol);
- dylai storfeydd, boed y rheina'n ynghlwm wrth adeilad neu ar wahân, a chabinetau / biniau / unedau allanol ac yn y blaen:
  - gynnwys bwnd mewnol i gasglu arllwysladau;
  - gynnwys modd i storio cynwysyddion cludadwy yn ddiogel ar eu sefyll;
  - cynnwys agoriadau awyru uchel ac isel i ganiatáu gwasgaru mygdarth;
  - fod â system cloi ddiogel i atal mynediad diawdurdod;
- rhaid bod cabinetau wedi'u labelu'n glir fel ei bod hi'n amlwg mai ar gyfer storio hylif fflamadwy y maen nhw, hynny yw:



- dylai storfeydd / unedau ac yn y blaen fod ag arwyddion rhybudd addas wedi'u rhoi yn sownd yn ymyl y fynedfa, er enghraifft:





- dylai storfeydd / unedau ac yn y blaen **un ai** beidio â chynnwys offer trydanol (sydd yn ffynhonnell taniadau) **neu** gynnwys offer trydanol sydd wedi'u dylunio i fod yn addas ar gyfer eu gosod mewn man lle mae sylwedd fflamadwy iawn yn cael ei storio;
- dylai storfeydd / unedau ac yn y blaen gael eu neilltuo ar gyfer storio petrol a chyfarpar cysylltiedig yn unig (megis peiriannau torri gwair ac ati) a ddylen nhw ddim cael eu defnyddio at ddibenion eraill, er enghraifft, fel gweithdy;
- cyn prynu unrhyw gabinet / bin / uned ac yn y blaen, sydd ar gyfer storio petrol, dylech chi gael cadarnhad gan y cyflenwr ei fod yn addas at y diben arfaethedig;
- dylai fod diffoddwr tân sydd â 9kg o bowdwr sych neu 9 litr o ewyn ar gael, sydd wedi'i roi mewn man sy'n gyfleus ar gyfer y cyfleusterau storio petrol, ac sydd wedi'i ddiogelu rhag mynediad diawdurdod;
- dylai fod cyflenwad o ddeunydd addas ar gyfer amsugno arllwysiadau neu ollyngiadau, megis tywod neu ronynnau amsugol ar gael, sydd wedi'i roi mewn man cyfleus ar gyfer y cyfleusterau storio petrol.

### **Storio offer sy'n llosgi petrol**

Dylai offer sy'n llosgi petrol megis peiriannau torri gwair ac ati (a fydd yn cynnwys petrol mewn tanciau tanwydd) gael ei storio mewn cabinet / bin / uned / storfa ac yn y blaen, sy'n cydymffurfio â'r gofynion sydd wedi'u disgrifio uchod.

Yr opsiwn gorau fyddai storio'r cynwysyddion petrol gyda'r offer sy'n llosgi petrol mewn cabinet / bin / uned / storfa ac yn y blaen sy'n ddigon mawr i ddal y cyfan.

Ddylai cyfanswm y petrol sy'n cael ei gadw mewn gweithle, gan gynnwys y petrol sydd mewn cynwysyddion ac mewn tanciau tanwydd offer ddim bod yn fwy na 30 litr.

### **Ymgynghoriad ar Storio Petrol**

Gan y gall storio petrol gael effaith ar yr asesiad risg diogelwch tân ar gyfer gweithle, mae'n bwysig bod unrhyw fannau storio petrol yn cael eu dwyn i sylw ymgynghorwyr diogelwch tân penodedig y Cyngor pan fyddan nhw'n ymweld i gynnal asesiadau neu adolygu asesiadau.

Yn yr un modd, mae'n bwysig cysylltu ag ymgynghorwyr diogelwch tân penodedig y Cyngor am eu cyngor ar unrhyw gynigion newydd o ran storio petrol cyn eu gweithredu.

## 6. DEFNYDDIO PETROL

Dylai'r asesiad risg ar gyfer gweithio gyda phetrol gynnwys pob sefyllfa lle mae petrol yn cael ei ddefnyddio neu'i drin.

Dim ond y gweithwyr hynny y mae'n ofynnol iddyn nhw weithio gyda phetrol a ddylai gael mynediad ato.

Dylai gweithwyr sy'n gweithio gyda phetrol gael hyfforddiant ynglŷn â defnyddio petrol yn ddiogel, gan gynnwys, er enghraifft:

- defnyddio offer diffodd tân;
- beth i'w wneud os oes arllwysiad neu ollyngiad, a pha gamau dylen nhw eu cymryd, er enghraifft:
  - lle bo'n ymarferol, atal yr arllwysiad / y gollyngiad (rhoi cynwysyddion ar eu sefyll unwaith eto, tynhau capiau, ac ati);
  - os nad oes modd atal y gollyngiad, dal y petrol sy'n gollwng mewn unrhyw gynhwysydd sydd ar gael er mwyn gollwng cyn lleied o betrol ag sy'n bosibl ar y llawr, ac yna rhoi'r petrol sydd wedi'i gasglu mewn cynhwysydd cymeradwy sydd heb ei ddifrodi;
  - amsugno'r petrol sydd wedi'i ollwng cyn gynted â phosibl gan ddefnyddio deunydd amsugol, er enghraifft, gronynnau, tywod ac yn y blaen;
  - clirio'r deunydd amsugol llygredig, ei roi e mewn cynwysyddion â chaead sydd wedi'u labeli'n glir, storio'r cynwysyddion mewn storfa petrol a chael gwared ar y cynwysyddion drwy gontractiwr arbenigol;
- mesurau cymorth cyntaf personol sylfaenol i'w defnyddio pe bai damweiniau sy'n ymwneud â phetrol, megis:
  - yn achos cyswllt â'r llygaid, tynnwch unrhyw lensys cyffwrdd, arllwyswch ddŵr i mewn i'r llygaid am o leiaf 15 munud gan ddal yr amrant i ffwrdd o belen y llygad i sicrhau bod y llygaid yn cael eu golchi'n drylwyr, a cheisiwch sylw meddygol (gan geisio cyngor arbenigol cyn ailddefnyddio lensys cyffwrdd difwynedig);
  - yn achos cyswllt â'r croen, arllwyswch ddŵr ar y croen am o leiaf 15 munud, a cheisio sylw meddygol yn achos unrhyw lid parhaus;
  - yn achos mewnanadlu mygdarth, symudwch i'r awyr agored os nad ydych chi yno'n barod, a cheisio cyngor ar unwaith gan swyddog cymorth cyntaf cymwys a/neu geisio sylw meddygol;
  - yn achos amlyncu petrol, ceisiwch gyngor ar unwaith gan swyddog cymorth cyntaf cymwys a/neu geisio sylw meddygol;

- pwysigrwydd rhoi unrhyw ddillad halogedig mewn dŵr yn syth (er mwyn osgoi'r perygl o daniad gan sbardunau o drydan statig, ymhlith pethau eraill), newid i ddillad glân a golchi dillad halogedig yn drylwyr cyn eu hailddefnyddio neu eu gwaredu trwy gontractwr arbenigol (gall dillad sydd wedi'u halogi â phetrol achosi tân);
- y defnydd o offer amddiffynnol personol (PPE), er enghraifft, esgidiau, oferôls, menig, gogls;
- pwysigrwydd peidio â bwyta nac yfed wrth drin petrol;
- pwysigrwydd peidio â defnyddio offer trydanol / electronig cludadwy (fel ffôn symudol) ger unrhyw fan lle mae petrol yn cael ei drin neu'i storio;
- pwysigrwydd peidio â chaniatáu cynnal prosesau gwaith sy'n cynhyrchu fflamau noeth neu ffynonellau tanio eraill (fel weldio neu falu) ger unrhyw fan lle mae petrol yn cael ei drin neu'i storio;
- pwysigrwydd diffodd peiriannau/injans a gadael i offer oeri cyn eu hail-lenwi â phetrol;
- pwysigrwydd peidio â chaniatáu i bobl ysmegu ger unrhyw fan lle mae petrol yn cael ei drin neu'i storio (o dan Bolisi HS 18 y Cyngor - Ysmegu yn y Gweithle, dim ond mewn ardaloedd ysmegu allanol dynodedig y mae ysmegu yn cael ei ganiatáu, a dim ond yn eu hamser eu hunain y caiff gweithwyr ysmegu ac nid tra eu bod nhw ar ddyletswydd);
- pwysigrwydd defnyddio petrol ar gyfer tanio offer yn unig ac nid ar gyfer unrhyw ddefnydd anawdurdodedig, megis cyflymydd i gynnu tân neu farbeciw.

**Dydy'r canllaw yma ddim ar gyfer gweithleoedd lle mae petrol yn cael ei ddosbarthu - rhaid i unrhyw weithle o'r fath gysylltu â Swyddog Petrolewm y Cyngor sy'n rhan o Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd.**